# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant

**2025 - 2028**

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Cyd-destun ehangach ... 4
Ein dull ... 5
Thema 1: Sefydliad cynhwysol ... 6
Thema 2: Ariannu ymchwil cynhwysol ... 7
Thema 3: Cyfranogiad cynhwysol ... 8
Thema 4: Gweithlu cynhwysol ... 9
Thema 5: Cynhwysiant wedi'i hysbysu gan dystiolaeth ... 9
Thema 6: Effaith i bawb ... 10
Y camau nesaf ... 11
Atodiad A ... 12

# Cyflwyniad

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn dod ag amrywiaeth eang o bartneriaid ynghyd i hwyluso ymchwil i glefydau, triniaethau, gwasanaethau, ac atal afiechyd a chanlyniadau a all arwain at ddarganfyddiadau ac arloesiadau i wella a hyd yn oed achub bywydau pobl. Ein cenhadaeth yw ariannu, hyrwyddo a chefnogi gwaith ymchwil o ansawdd uchel sy'n berthnasol i anghenion a heriau pawb yng Nghymru. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni feddwl am yr anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymdeithas oherwydd gwahaniaethau mewn amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a heb wneud hynny, ni fydd yr ymchwil yr ydym yn ei chefnogi yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau y gellir eu hosgoi yn iechyd ein poblogaeth, y gofal y mae pobl yn ei dderbyn, a'r cyfleoedd sydd gan bobl.

Mae ein cynllun Materion ymchwil yn cydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol. I wella ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i bawb, rydym yn croesawu pobl a chymunedau amrywiol yn ganolog i'n holl weithgareddau arfaethedig ac ar y gweill. Yn y ddogfen hon, rydym yn aml yn defnyddio'r term cynhwysiant fel llaw-fer ar gyfer EDI.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ymdrechu i greu a chynnal diwylliant lle mae pawb yn teimlo wedi'u cynnwys a'u gwerthfawrogi, a lle gallant gymryd rhan mewn gwaith ymchwil, cyfrannu ato ac elwa o'n buddsoddiadau ynddo. Rydym yn gweithio i ariannu a chefnogi gwaith ymchwil a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pawb ledled Cymru. I gyflawni hyn, rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant hwn â chamau gweithredu a gweithgareddau a fydd yn ymwreiddio arferion cynhwysol ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae cydnabod ein poblogaeth amrywiol yn helpu i gynhyrchu gwaith ymchwil ystyrlon ac effeithiol i bawb, ac felly mae ymwreiddio EDI yn ein gweithgareddau yn hanfodol i roi lle i bawb ffynnu a llwyddo.

Byddwn yn sicrhau drwy'r cynllun hwn bod gan ein harferion cynhwysol y potensial i leihau anghydraddoldebau iechyd a gofal cymdeithasol a chynyddu tegwch ymchwil. Rydym wedi gweld dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf bwyslais cynyddol ar bwysigrwydd ymchwil gynhwysol. Taflodd y pandemig oleuni nid yn unig ar werth gwaith ymchwil ond ar yr angen i'r gwaith ymchwil gael ei lunio gan yr union gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan eu hallbynnau, ac iddo adlewyrchu eu hanghenion a'u cynnwys. Byddwn yn hyrwyddo ac yn ysgogi amgylchedd ymchwil cynhwysol sy'n cydnabod ehangder amrywiaeth yn ein cymdeithas ac yn hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad pawb.

Byddwn yn gwneud hwn drwy:

- ymgysylltu â grwpiau amrywiol ar draws ein holl weithgareddau i gynorthwyo dealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau pawb;

- gwneud ein gwaith ymchwil yn berthnasol ac yn hygyrch i greu canlyniadau effeithiol;
- datblygu arferion cynhwysol sy'n ysgogi gwaith ymchwil o ansawdd uchel.

Rydym yn cefnogi ystyriaeth o ddulliau cynhwysol drwy gydol oes yr astudiaeth o ddyluniad cychwynnol gwaith ymchwil hyd at ddosbarthu canfyddiadau ymchwil a rhoi gwybodaeth ar waith.

Byddwn yn mesur llwyddiant ein dull yn erbyn y camau a gyflwynir isod ar draws ein chwe thema.

# Cyd-destun ehangach

Mae'r pwyslais ar bwysigrwydd ymchwil gynhwysol wedi'i ymwreiddio'n gynyddol drwy amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni gwaith ar draws y DU gyfan. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Gyflawni Ymchwil Clinigol y DU sy'n tynnu sylw penodol at yr angen i wella amrywiaeth mewn cyfranogiad mewn gwaith ymchwil. Mae'r Awdurdod Ymchwil Iechyd wedi nodi gwaith ymchwil sy'n gynrychiadol a theg fel un o'r dilysnodau ar gyfer ymchwil sy'n canolbwyntio ar gleifion. Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaeth a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA) yn datblygu canllawiau i helpu ymchwilwyr i wella amrywiaeth cyfranogwyr yn eu gwaith ymchwil.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid (adrannau llywodraeth a rheoleiddwyr) i egluro ein disgwyliadau o ymchwilwyr drwy ddiweddaru Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud ag amrywiaeth pobl sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Ledled y DU, ceir Ymrwymiad Cyffredin i Gyfranogiad Cyhoeddus mewn gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i ymwreiddio cyfranogiad cyhoeddus rhagorol, y dangoswyd ei fod yn gwella ansawdd gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Adlewyrchir yr ymrwymiad yn Safonau'r DU ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus.

Mae nifer o arianwyr ymchwil hefyd wedi cyflwyno eu cynlluniau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys arianwyr llywodraeth, cynghorau ymchwil ac elusennau ymchwil. Mae'n bwysig i Gymru barhau i weithio gyda'r holl bartneriaid ar draws y DU i sicrhau bod ymdrechion i wella cynhwysiant yn cael eu rhannu a bod arferion da yn cael eu mabwysiadu a'u cysoni, pan fo'n briodol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn aelod o fforwm arianwyr rhyngwladol Sicrhau Gwerth mewn Ymchwil (EViR) sydd wedi sefydlu EDI fel maes blaenoriaeth. Hefyd, rydym wedi datblygu partneriaeth gyda'r Ganolfan Tegwch Ymchwil i'n cynorthwyo i roi'r cynllun hwn ar waith. Rydym hefyd yn cymryd rhan ac yn bwriadu cysoni ein harferion ag argymhellion menter MESSAGE ar ryw a rhywedd i wella canlyniadau

iechyd rhyweddol. Rhai enghreifftiau cynnar yw'r rhain wrth i ni barhau ar ein taith i wneud Cymru yn amgylchedd ymchwil cynhwysol.

Wrth i ni weithredu ein cynllun, rydym yn cysoni ein gweithgareddau â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Mehefin 2022) Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer 2030 - i wneud newid mesuradwy i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig drwy fynd i'r afael â hiliaeth. Rydym hefyd yn adeiladu ar y weledigaeth a gyflwynir yn Cymru Iachach, a'r camau wedi'u hadnewyddu a gyhoeddwyd yn 2024 sy'n rhoi sylw i'r angen am ddull system gyfan teg o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym yn ymgorffori'r pum dull o weithio a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

# Ein dull

Mae gan bob corff cyhoeddus ymrwymiad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[1] i sicrhau bod yr effaith ar grwpiau â nodweddion sydd wedi'u gwarchod o dan y Ddeddf yn cael eu hystyried yn eu proses o wneud penderfyniadau.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gweithio i sicrhau bod gwaith ymchwil yn diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pawb. Fodd bynnag, mae wedi dod yn gynyddol amlwg bod rhai grwpiau mewn cymdeithas wedi cael eu tanwasanaethu a'u tangynrychioli mewn prosesau, cyfranogiad a chanlyniadau ymchwil. Yn ddiweddar, tynnwyd sylw penodol at anghydraddoldebau yn ymwneud ag ethnigrwydd, a rhyw a rhywedd. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth, mynediad at iechyd a gofal, ynghyd â nodweddion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.


Byddwn yn parhau i ddeall nodweddion ein poblogaeth yng Nghymru fel bod ein dull o roi'r cynllun ar waith yn adlewyrchu pobl Cymru. Mae hyn wedi cynnwys ein cyfranogiad ym mhrosiect INCLUDE y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal sydd â'r nod o egluro pa grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu mewn gwaith ymchwil a datblygu ffyrdd manwl o fynd i'r afael â nhw. O ganlyniad, rydym wedi cydweithio a chydweithwyr INCLUDE y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal i ddarparu gweithdai gyda chyfranwyr cyhoeddus ac ymchwilwyr ar y cysyniad o 'gynghreiriaeth' a sut y gall gefnogi dulliau cynhwysol o ymdrin â chyfranogiad a dylunio ymchwil.

Byddwn yn defnyddio data'r cyfrifiad, pan fo'n briodol, i ddeall ein poblogaeth (mae atodiad A yn dangos data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru). Fodd bynnag, nid yw hyn

[1] Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020 - oedran, anabledd, rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

yn adlewyrchu'r holl grwpiau amrywiol yr ydym yn dymuno eu hystyried yn rhan o'n cynllun gweithredu. Ein dull ar draws ein holl weithredoedd fydd ystyried diwylliannau, agweddau ac ymddygiadau, a chydnabod credoau a ffydd amrywiol pobl.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar amrywiaeth o weithgareddau sydd eisoes ar y gweill a gweithgareddau newydd a gynlluniwyd ac yn cyflwyno'r rhain yn erbyn chwe thema – y bydd gweithredu pob un ohonynt gyda'i gilydd yn arwain at gynhwysiant cryfach ar draws ein prosesau a'n tirwedd ymchwil yng Nghymru.




Rydym ar daith. Mae'n bwysig cydnabod felly y gallai'r camau a gyflwynir fod yn wahanol o ran eu manylder, yn dibynnu ar y gweithgarwch i ymgymryd ag ef yng nghyd-destun tirwedd sy'n esblygu. Gyda rhai, bydd eglurder ynghylch y dasg ac efallai y bydd eraill angen gwaith datblygiadol pellach i ddeall pa gamau pellach allai fod eu hangen.

## Thema 1: Sefydliad cynhwysol

### Byddwn yn sefydliad cynhwysol drwy sicrhau bod cynhwysiant yn cael ei blethu drwy ein strategaethau a'n polisïau, bod gennym gynrychiolaeth amrywiol ar ein Bwrdd Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a fforymau eraill, a'n bod yn sicrhau cynhwysiant ar draws ein rhwydwaith cyfranogiad cyhoeddus.

**Camau:**

1. Byddwn yn gweithio tuag at gynrychiolaeth amrywiol ar ein Bwrdd Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a fforymau eraill drwy hysbysebu a hyrwyddo pob cyfle yn eang, gan gynnig hyfforddiant a chefnogaeth priodol, a monitro ac adolygu aelodaeth.
2. Byddwn yn parhau i weithio i ehangu a monitro aelodaeth a demograffeg rhwydwaith cyfranogiad cyhoeddus Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gysylltu'n briodol â sefydliadau cymunedol a nodi eiriolwyr i hyrwyddo arferion cynhwysol, i sicrhau bod amrywiaeth gynhwysol o leisiau cyhoeddus yn cymryd rhan ar draws ein holl weithgareddau.
3. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'n partneriaid sy'n derbyn cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fod â chynhwysiant fel rhan graidd o'u gweithgareddau. Er enghraifft, yn rhan o weithredu fframwaith ymchwil a datblygu'r GIG.
4. Rydym wedi mabwysiadu Safonau'r DU ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus yn ein polisïau a'n harferion, lle mae 'Cyfleoedd cynhwysol' yn safon graidd. Byddwn yn gweithio ar y cyd ac yn rhannu arferion da gyda sefydliadau ymchwil eraill yn rhan o gonsortiwm 'Ymrwymiad Cyffredin i Gyfranogiad Cyhoeddus' y DU.
5. Byddwn yn parhau i weithio'n weithredol ag arianwyr a phartneriaid eraill i hysbysu ein harferion cynhwysol, yn rhyngwladol drwy EVIR a hefyd gydag amrywiaeth o arianwyr yn y DU.

## Thema 2: Ariannu ymchwil cynhwysol

**Byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yr ydym yn ei hariannu yn gynhwysol drwy ymwreiddio cynhwysiant yn ein prosesau blaenoriaethu, ymgeisio ac asesu. Byddwn yn annog ceisiadau gan grwpiau amrywiol, yn ogystal â cheisiadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu.**

**Camau:**

1. Byddwn yn parhau i gasglu, monitro ac adolygu data cynhwysiant yn ein cynlluniau ariannu, ar draws grantiau prosiect **a** dyfarniadau personol.
2. Byddwn yn parhau i fonitro ein portffolio o brosiectau a ariennir i sicrhau bod yr ymchwil yr ydym yn ei hariannu yn mynd i'r afael ag anghenion pawb.
3. Byddwn yn cynnal ymarfer blaenoriaethu ymchwil EDI wedi'i deilwra o fewn y 3 blynedd nesaf i nodi materion sydd bwysicaf i bobl a lle ceir bylchau o ran gwybodaeth ymchwil.
4. Byddwn yn cyflwyno gwelliannau trwy fabwysiadu arferion da a gydnabuwyd a chysoni â mentrau priodol gan arianwyr eraill, gan gynnwys partneriaid o fewn fforwm arianwyr rhyngwladol EViR.
5. Byddwn yn sicrhau bod ein Canolfannau Ymchwil yn ymwreiddio cynhwysiant yn eu rhaglenni gwaith ac yn monitro ei effaith.

6. Byddwn yn darparu neu'n cyfeirio ymchwilwyr at hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau bod arferion cynhwysol, gan gynnwys dylunio ymchwil cynhwysol, wedi'u hymwreiddio mewn ceisiadau am gyllid a'r ddarpariaeth o ymchwil a ariennir.

# Thema 3: Cyfranogiad cynhwysol

**Byddwn yn ymdrechu i wella mynediad at waith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a chyfranogiad ynddo drwy amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys cynlluniau ymgysylltu, fel y gall pobl o bob cefndir gymryd rhan mewn gwaith ymchwil.**

**Camau:**

1. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Ymchwil Iechyd a chyda gwledydd eraill y DU i sicrhau bod y system moeseg a chymeradwyaeth ymchwil yn darparu canllawiau a gofynion eglur o ran sut y disgwylir i ymchwilwyr ddylunio gwaith ymchwil i gynnwys pobl a allai gael eu heffeithio, ac nad yw pobl sy'n aml wedi'u tanwasanaethu gan waith ymchwil yn cael eu hanghofio.
2. Byddwn yn cwmpasu sut i ddatblygu a defnyddio prosesau ar gyfer proses barhaus effeithlon o gasglu demograffeg cyfranogwyr ymchwil, gan gydweithredu â datblygiadau tebyg yng ngwledydd eraill y DU i hwyluso gwell dealltwriaeth o fylchau cyfranogiad a thangynrychiolaeth.
3. Byddwn yn gweithio gydag arianwyr a noddwyd, gan gynnwys diwydiant a'r cyhoedd i ddatblygu strategaethau recriwtio (gan gynnwys gweithgareddau cyfathrebu wedi'u targedu) i oresgyn rhwystrau ymarferol, i gynnig cyfleoedd teg, ac i ehangu mynediad at astudiaethau ymchwil i bawb.
4. Yn rhan o weithrediad Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG yn GIG Cymru, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG a darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar lefel leol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwaith ymchwil ymhlith cymunedau amrywiol.
5. Byddwn yn cynnal gwerthusiad annibynnol o dybiaethau'r cyhoedd (drwy YouGov neu arolwg wedi'i gomisiynu tebyg) ar fynediad at waith ymchwil a fydd yn galluogi sefydliadau'r GIG i ddeall eu poblogaeth amrywiol a hysbysu eu strategaethau ymchwil a datblygu.
6. Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr phartneriaid systemau, fel y Ganolfan Tegwch Ymchwil (Prifysgol Rhydychen) i rannu arferion da o ran recriwtio cymunedol a dylunio astudiaethau ymchwil, ac i gefnogi'r gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i wella amrywiaeth.

# Thema 4: Gweithlu cynhwysol

**Byddwn yn cydweithredu â phartneriaid ledled Cymru i sicrhau y bydd cynhwysiant yn ganolog i ddatblygu gweithlu ymchwil Cymru[2], gan rannu arferion gorau a dysgu.**

**Camau**:

1. Rydym yn cydnabod bod camau ar y cyd yn ofynnol i wella amrywiaeth yn y gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau partner a chyflogwyr i gyflawni newid system gyfan sy'n ystyried elfennau sensitif yn ddiwylliannol.
2. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r byd academaidd, y GIG ac awdurdodau lleol i archwilio ar y cyd a gwella amrywiaeth ymhlith y gweithlu ymchwil, er enghraifft defnyddio grwpiau presennol fel fforwm Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Rhaglen Ymgorffori Ymchwil yn y GIG.
3. Byddwn yn cydweithredu ar ddatblygiad strategaeth gweithlu ymchwil Cyflawni Ymchwil Clinigol y DU i wella arferion ein gweithlu cyflawni ymchwil cynhwysol a gwella cymhwysedd diwylliannol.
4. Byddwn yn gwella cynhwysiant yn y biblinell dalent trwy gynnig cyfleoedd datblygu gyrfaoedd a llwybr gyrfaoedd trwy ein cynlluniau dyfarniadau personol Cyfadran, a sicrhau eu bod yn cael eu hyrwyddo'n briodol ac yn hygyrch i bawb.
5. Trwy ein Cyfadran, byddwn yn darparu cyfleoedd hyfforddi, datblygu a mentora i gefnogi ymchwilwyr o gefndiroedd amrywiol.

*[2] Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cyfeirio at y gweithlu ymchwil ehangach ar draws y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, a sefydliadau academaidd.*

# Thema 5: Cynhwysiant wedi'i hysbysu gan dystiolaeth

**Byddwn yn mabwysiadu dull wedi'i hysbysu gan dystiolaeth drwy adolygi ein data ein hunain a'r data a gesglir gan bartneriaid fel mater o drefn, a defnyddio gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg ynghyd â'r data i gryfhau ein gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant.**

**Camau:**

1. Byddwn yn defnyddio data a gesglir ar ein byrddau, ein paneli a'n fforymau ein hunain, ac aelodau ein rhwydwaith cyfranogiad cyhoeddus i nodi a mynd i'r afael â bylchau o ran amrywiaeth a chynrychiolaeth.

2. Byddwn yn defnyddio data a gesglir o geisiadau am gyllid i grantiau prosiect a chynlluniau dyfarniadau personol i ddeall bylchau presennol a datblygu gweithgareddau allgymorth wedi'u targedu.
3. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth portffolio o'n canolfannau ymchwil i sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael sylw, ac i helpu i nodi bylchau ymchwil parhaus a phynciau ymchwil blaenoriaeth.
4. Byddwn yn dysgu o arferion recriwtio i astudiaethau cynhwysol i ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio a mabwysiadu arferion gorau sy'n esblygu mewn arferion dylunio a recriwtio yn y dyfodol.
5. Byddwn yn rhannu data a gesglir o bob rhan o'n gweithgareddau i hysbysu trafodaethau ar wella amrywiaeth ein gweithlu gyda'n partneriaid.
6. Byddwn yn sicrhau bod ein mentrau/gweithgareddau cynhwysiant yn manteisio ar wybodaeth newydd sy'n dod i'r amlwg o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft fframweithiau, erthyglau cyfnodolion a phrofiad bywyd.

## Thema 6: Effaith i bawb

**Byddwn yn sicrhau bod canfyddiadau o'r gwaith ymchwil yr ydym yn ei gefnogi, yn ei ddarparu ac yn ei ariannu yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith yn briodol er budd pawb. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner ac arianwyr eraill, ac yn dysgu ganddynt, i ddilyn arferion gorau o ran dosbarthu, cyfathrebu a gweithredu canfyddiadau ymchwil gyda *phob* grŵp yn ein cymuned.**

**Camau:**

1. Byddwn yn parhau i fonitro'r effaith y mae ein gwaith ymchwil a ariannwyd yn ei chael a hyrwyddo esiamplau o gynhwysiant ymchwil effeithiol.
2. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni a'r ymchwilwyr yr ydym yn eu hariannu rannu gwybodaeth mewn ffordd gynhwysol drwy gydol y broses ymchwil.
3. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth am ddulliau effeithiol o roi gwybodaeth ar waith a modelau o wneud hynny. Byddwn yn rhoi sylw penodol i ddeall heriau cyfathrebu a rhoi gwybodaeth ar waith ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chynulleidfaoedd sydd wedi'u tanwasanaethu, ac i ddulliau priodol o wneud hynny.
4. Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gynhwysol, gan adeiladu ar waith y grŵp Cynghori ar EDI Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chyfranogiad (CE&I). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau fel Anabledd Cymru, Diverse Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

5. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r HRA i sicrhau bod y gwaith ymchwil yr ydym yn ei gefnogi a'i gyflawni yn bodloni'r gofynion o ran cyhoeddi canlyniadau astudiaethau ymchwil.
6. Byddwn yn gweithio i greu cyfleoedd teg ac amgylcheddau diogel sy'n cefnogi rhannu a dosbarthu canfyddiadau ymchwil.

## Y camau nesaf

Bydd Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru yn goruchwylio darpariaeth y cynllun hwn. Byddwn yn darparu diweddariadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn pob cam i Fwrdd Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn diweddaru'r dudalen we yn achlysurol wrth i ni wneud cynnydd. Byddwn yn parhau i adolygu'r cynllun hwn ar sail barhaus.

Mae maes cynhwysiant yn amgylchedd sy'n esblygu'n gyflym, a byddwn yn ceisio bod yn ystwyth ac yn hyblyg. Rydym wedi ymrwymo i fonitro a meincnodi lle'n briodol ond bydd mesur sut mae da yn edrych yn amrywio'n fawr ar draws y camau. Rydym o'r farn mai adroddiadau blynyddol ar gynnydd sy'n canolbwyntio ar gamau a'u heffeithiau fydd y ffordd orau o nodi datblygiadau yn ystyrlon.

Yn rhan o weithrediad ein cynllun, byddwn yn gweithio ar y cyd â'n cymuned ymchwil a grwpiau poblogaeth, ar draws y gwahanol fentrau a gweithgareddau a amlinellwyd. Bydd hyn yn galluogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i wneud gwaith ymchwil tecach, mwy amrywiol a mwy cynhwysol sy'n effeithiol ac yn ymatebol i anghenion pobl Cymru.

# Atodiad A

Tabl 1: Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru

| Nodwedd | Categorïau | Canran o boblogaeth Cymru |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Benywaidd | 50.9 |
| | Gwrywaidd | 48.7 |
| | Anneuaidd | 0.4 |
| | Byddai'n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Rhugl yn y Gymraeg** | | 17.8 |
| **Pobl anabl** | | 21 |
| **Ethnigrwydd** | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 2.9 |
| | Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.9 |
| | Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog | 1.6 |
| | Gwyn | 90.6 |
| | Grŵp ethnig arall/dim ateb | 0.9 |
| **Crefydd/Ffydd** | Bwdhydd | 0.3 |
| | Cristion | 43.6 |
| | Hindŵ | 0.3 |
| | Iddew | 0.1 |
| | Mwslim | 2.2 |
| | Sikh | 0.1 |
| | Crefydd arall | 0.4 |
| | Dim crefydd | 46.5 |
| | Dim ateb | 6.5 |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Heterorywiol | 89.4 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 1.5 |
| | Deurywiol | 1.2 |
| | Arall | 0.3 |
| | Dim ateb | 7.6 |
| **Oedran** | Dan 18 | 21 |
| | 18-25 | 8 |
| | 26-40 | 18 |
| | 41 - 55 | 19 |
| | 56-70 | 19 |
| | Dros 70 | 14 |
| | Dim ateb | 1 |